ATODLEN 3

Hysbysiadau

**Hysbysiadau o dan reoliad 28 (gwybodaeth bellach a thystiolaeth: gwiriadau cyn ymgynghori)**

**18.** Y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 28(8)(ch) yw—

(a) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid darparu tystiolaeth ddogfennol o gyhoeddi (sef y dyddiad pan ddaw'r cyfnod perthnasol at ddibenion rheoliad 29(1) i ben);

(b) effaith rheoliad 29(2) (atal);

(c) effaith rheoliad 50 (parhad ataliad);

(ch) effaith rheoliad 51 (gwahardd);

(d) gofynion rheoliad 30 (gwybodaeth bellach neu dystiolaeth: y gofynion cyhoeddusrwydd);

(dd) gofynion rheoliad 31 (tystiolaeth ddogfennol o gyhoeddi);

(e) effaith rheoliad 32(1) (darparu copïau ymgynghori i awdurdod cynllunio mwynau perthnasol neu i Weinidogion Cymru);

(f) effaith rheoliad 33 (nifer rhesymol o gopïau o wybodaeth bellach neu dystiolaeth i'w rhoi ar gael i'r cyhoedd);

(ff) yr hawl a roddir gan reoliad 35 (codi tâl am gopïau o wybodaeth bellach neu dystiolaeth);

(g) effaith rheoliad 34 (darparu copïau o wybodaeth bellach a thystiolaeth i Weinidogion Cymru yn achos atgyfeiriad neu apêl);

(ng) effaith rheoliad 32(4) (gwahardd penderfynu yn ystod cyfnod ymgynghori);

(h) effaith rheoliad 28(13) (nid yw hysbysiad ysgrifenedig a roddir o dan reoliad 28 yn rhwystro hawl i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth bellach neu dystiolaeth gael ei darparu);

(i) ddyletswydd a osodir ar y ceisydd, apelydd neu, yn ôl y digwydd, y gweithredwr, gan reoliad 46 (cyhoeddusrwydd);

(j) yr hawl i herio'r hysbysiad a'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud hynny.